

## Tasg 1

# Da iawn, chi!

Atebwch y cwestiynau hyn.

1. Beth yw pwrpas y darn?

a. gofyn am wybodaeth

b. canmol

c. beirniadu

ch. gofyn cwestiynau

2. Sut mae Alex yn teimlo am y cefnogwyr?

Rhowch resymau dros eich ateb.

3. Sut mae Alex yn teimlo am y tîm?

Rhowch resymau dros eich ateb.

4. **Yn ôl y testun**, sut mae'r gemau wedi effeithio ar bobl Cymru?

5. **Yn ôl y testun**, sut mae'r gemau wedi effeithio ar y ffordd mae pobl ar draws y byd yn gweld Cymru?

6. Sut rydych chi'n gwybod bod y gemau wedi ysbrydoli Alex?

7. Mae Alex a miloedd o bobl eraill wedi cael eu hysbrydoli gan berfformiad y tîm a'r cefnogwyr.

Trafodwch y cwestiynau hyn.

- a. Sut all y cefnogwyr fod yn ysbrydoliaeth i bobl eraill?
- b. Sut all y tîm fod yn ysbrydoliaeth i bobl eraill?

Arwyddair y tîm oedd:

**Gyda'n gilydd yn gryfach**

Arwyddair Cymdeithas Pêl-droed Cymru ydy:

**Gorau chwarae cyd-chwarae**

Beth yw ystyr y ddau arwyddair yma?

Sut mae'r ddau arwyddair yn gallu ysbrydoli timau chwaraeon?